*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 170 (Cy.30)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *30 Ionawr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Ionawr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeilaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003; mae'n gymwys i Gymru yn unig a daw i rym ar 31 Ionawr 2003.

### Diwygio Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**) yn unol a'r erthygl hon.

(2) Yn erthygl 1(2) rhoddir “1 Tachwedd 2003” yn lle “1 Chwefror 2003”.

(3) Yn erthygl 3(1), yn y testun Cymraeg yn unig, rhoddir “Rhaid i berchennog neu geidwad unrhyw fochyn ar ddaliad hysbysu'n” yn lle “Rhaid i berchennog unrhyw fochyn ar ddaliad neu berson sydd â gofal drosto i hysbysu'n”.

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i “the Ministers” (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd “the Ministers” a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach wedyn bob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2303 (Cy.228).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*John Marek*
30 Ionawr 2003 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

*Whitty*
Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
30 Ionawr 2003

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (O.S. 2002/2303 (Cy.228)), ("y prif Orchymyn").

Yr unig newid o sylwedd a wneir i'r prif Orchymyn gan y Gorchymyn hwn yw diwygio'r dyddiad y mae'r prif Orchymyn yn peidio â chael effaith (o 1 Chwefror 2003 i 1 Tachwedd 2003) (erthygl 2). Mewnosodir term a ddiffiniwyd (ceidwad) yn y testun Cymraeg o erthygl 3(1) yn lle cymal cyfatebol.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.